# Rheolau Gweithdrefnau Contractau

# Cyngor Sir Caerfyrddin

Fersiwn 7 - 2026

## Cynnwys


1.Cyflwyniad 3

2.Diffiniadau a Dehongliadau 5

3.Bod yn agored ac yn dryloyw 5

4.Cyfrifoldebau'r Swyddog Arweiniol 6

5.Trefniadau Cydweithio 11

6.Fframweithiau 11

7.Gofynion Cyn Caffael 14

8.Trothwyon 14

9.Paratoi ar gyfer Dyfynbrisiau (£30,000-£100,000) a Thendrau (dros £100,000) 16

10.Y Broses Gaffael 18

11.Dyfarnu’r Contract 21

12.Rheoli Contractau 23

13.Eithriadau a Hepgoriadau i Ofynion Cystadleuaeth 23

14.Addasu neu Ymestyn Contractau Presennol 27

15.Adolygu 29

16.Trefniadau Trosiannol 29

17.ATODIAD 1 - Diffiniadau a Dehongliadau 311

## 1. Cyflwyniad

**1.1.** Pwrpas y Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn yw gosod rheolau clir ar gyfer caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith i'r Awdurdod er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian. Bydd hyn yn sicrhau system o fod yn agored, yn dryloyw ac yn anwahaniaethol lle na fydd unrhyw amheuaeth ynghylch atebolrwydd a gonestrwydd y broses gaffael.

**1.2.** Rhaid i swyddogion sy'n gyfrifol am brynu gydymffurfio â'r Rheolau hyn.

**1.3.** Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn yn gymwys ar gyfer caffael yr holl nwyddau, gwasanaethau a gwaith i'r Cyngor.

**1.4.** Rhaid cysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol cyn cymryd unrhyw gamau ffurfiol mewn perthynas â nwyddau neu weithgaredd gwasanaeth dros £30,000 yng ngwerth cyfan y Contract, gan gynnwys pan fydd angen hysbysiad (gweler adrannau 4.3.1 a 14 i gael rhagor o fanylion).

**1.5.** Mae'r gofynion o ran cyfrinachedd mewn perthynas â gwybodaeth yn ystod y broses dendro wedi'u nodi yn y Côd Ymddygiad ar gyfer y Swyddogion.

**1.6.** Rhaid hysbysebu tendrau dros £30,000 ar www.GwerthwchiGymru.llyw.cymru. Mewn amgylchiadau eithriadol gellir hepgor y gofyniad hwn yn dilyn cymeradwyaeth flaenorol gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a Phennaeth Gwasanaeth yr Adran berthnasol. (Gweler adran 8.1.3.1 i gael rhagor o fanylion). Pan fo tendrau o'r fath yn Gontractau Rheoleiddiedig sydd o dan y Trothwy, rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion Deddf Caffael 2023 sy'n ymwneud â Chontractau Rheoleiddiedig sydd o dan y Trothwy.

**1.7.** Mae'n ofynnol i ysgolion ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol ar gyfer Ysgolion.

**1.8.** Rhaid i'r meini prawf gwerthuso ar gyfer gwerthuso gwaith sy'n werth dros £30,000, ac a arweinir gan yr Awdurdod, gynnwys o leiaf 60% yn seiliedig ar bris. Os nad yw hyn yn briodol rhaid cael cydsyniad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. (Gweler RhGC 9.3.1 i gael rhagor o fanylion)

**1.9.** Rhaid i bob contract a wneir gan yr Awdurdod neu ar ei ran gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, y Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod. Os cyfyd unrhyw wrthdaro mewn perthynas â’r gofynion uchod, dylid cyfeirio’r mater at y Swyddog Monitro neu ei gynrychiolydd. Rhaid i bob caffaeliad sy'n Gaffaeliad a Gwmpesir, fel y'i diffinnir yn Neddf Caffael 2023, gydymffurfio â Deddf Caffael 2023 a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024/782.

**1.10.** Pan fo Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gymwys, rhaid i swyddogion roi sylw dyladwy i ddyletswyddau'r Awdurdod o dan y Ddeddf honno, gan gynnwys hyrwyddo caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol, cefnogi gwaith teg, cyfrannu at nodau llesiant ac ymgysylltu'n briodol â phartneriaid cymdeithasol.

**1.11.** Pan fo'r Cyngor yn caffael gwasanaethau gofal iechyd fel y'u disgrifir ac y darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 ("PSR"), rhaid i'r cyfryw gaffaeliadau gael eu cynnal yn unol â'r PSR ac nid y Ddeddf neu'r Rheoliadau.

**Cofrestr Gontractau**

**1.12.** Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn cadw ac yn diweddaru Cofrestr Gontractau yr Awdurdod, a rhaid rhoi gwybod i'r Uned am bob contract yr ymrwymwyd iddo, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o gontractau yn ôl y gofyn o dan fframweithiau.

**1.13.** Rhaid rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am bob eithriad i'r Rheolau hyn i'w hystyried cyn ceisio cymeradwyaeth, gan ddefnyddio'r System Adrodd am Eithriadau ar-lein.

Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn sicrhau bod yr hysbysiadau statudol priodol yn cael eu cyhoeddi ar GwerthwchiGymru. Pan fo cyfnod segur yn gymwys, rhaid cyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contract, a bydd y cyfnod segur gorfodol o 8 diwrnod gwaith yn dechrau ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad hwnnw.

Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar y tudalennau Caffael ar y fewnrwyd. Bydd pob eithriad a gymeradwyir yn cael ei gofnodi ar y Gofrestr Gontractau.

**1.14.** I gael cymorth ynghylch sut i roi'r rheolau hyn ar waith gweler y "Canllawiau Caffael" ar y fewnrwyd sy'n rhoi canllawiau penodol ynghylch gweithdrefnau caffael neu cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael cyngor a chymorth yn ymwneud â dehongli'r rheolau hyn a'u rhoi ar waith.

**Hysbysiad Piblinell**

**1.15.** Rhaid cyhoeddi hysbysiad piblinell, a fydd yn nodi gwybodaeth benodedig am unrhyw gontract cyhoeddus, sydd â gwerth amcangyfrifedig o fwy na £2 miliwn, y cyhoeddir hysbysiad tendro neu hysbysiad tryloywder mewn perthynas ag ef yn ystod y cyfnod adrodd. Y 'cyfnod adrodd' yw 18 mis, gan ddechrau ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol y cyhoeddir yr hysbysiad. Rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth gyflwyno ei gynllun gwaith caffael i'r Uned Caffael Corfforaethol a rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am unrhyw newidiadau i gynllun gwaith o'r fath cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## 2. Diffiniadau a Dehongliadau

**2.1.** At ddibenion y Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn, cyfeiriwch at Atodiad 1 i weld y diffiniadau fydd yn berthnasol.

**2.2.** Mae'r holl werthoedd a nodir yn y Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn i'w dehongli fel rhai sy'n cynnwys TAW yn ôl y gyfradd berthnasol.

## 3. Bod yn agored ac yn dryloyw

**3.1.** Ar gyfer pob ymarfer caffael a gynhelir, waeth beth fo'i werth, bydd y swyddogion yn sicrhau y byddant yn gwneud y canlynol:

**3.1.1.** sicrhau gwerth am arian;

**3.1.2.** caffael i sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r cyhoedd;

**3.1.3.** rhannu gwybodaeth er mwyn i gyflenwyr ac eraill ddeall polisïau a phenderfyniadau caffael y Cyngor;

**3.1.4.** gweithredu, a chael eu hystyried yn rhai sy'n gweithredu, ag uniondeb, tryloywder a chymesuredd; a

**3.1.5.** trin cyflenwyr yn yr un modd, oni bai bod gwahaniaeth rhwng y cyflenwyr yn cyfiawnhau eu trin yn wahanol.

**3.2.** Cydnabyddir y gall gweithgaredd twyllodrus a llwgr ddigwydd ym maes caffael. Dylai swyddogion sydd â chyfrifoldeb caffael fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau yn hyn o beth. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol yn y dogfennau canlynol ar hyn o bryd:-

**3.2.1.** Côd Ymddygiad ar gyfer Swyddogion

**3.2.2.** Rheolau Gweithdrefnau Ariannol

**3.2.3.** Côd Moeseg Corfforaethol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi

**3.2.4.** Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgr

**3.2.5.** Y Polisi Datgelu Camarfer

**Gwrthdaro Buddiannau**

**3.3.** Rhaid i'r Swyddog Arweiniol (ac aelodau'r Panel Gwerthuso Tendrau) gymryd camau priodol i atal, nodi ac unioni achosion o wrthdaro buddiannau er mwyn osgoi ystumio cystadleuaeth a thrin cynigwyr yn anghyfartal. Dylai camau o'r fath roi sylw i sefyllfaoedd lle mae gan swyddogion neu gynigwyr sy'n gysylltiedig â'r broses gaffael, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw fuddiant ariannol neu bersonol y gellid ystyried ei fod yn peryglu eu didueddrwydd.

**3.3.1.** Rhaid i'r holl swyddogion sy'n gysylltiedig â Thendr gwblhau Asesiad Gwrthdaro (a ddarperir gan yr Uned Caffael Corfforaethol). Rhaid adolygu'r asesiad hwn a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Rhaid cadarnhau bod asesiad gwrthdaro wedi'i baratoi a'i ddiwygio wrth gyhoeddi unrhyw hysbysiad perthnasol.

## 4. Cyfrifoldebau'r Swyddog Arweiniol

**4.1.** Y Swyddog Arweiniol at ddibenion y Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn fydd unrhyw berson a ddynodir felly mewn perthynas â'r canlynol:-

**4.1.1.** Unrhyw gontract penodedig

**4.1.2.** Unrhyw gategori neu gategorïau o gontractau, neu

**4.1.3.** Unrhyw werthoedd neu symiau penodedig mewn perthynas â'r categori hwnnw neu'r categorïau hynny

**4.2.** Y Swyddog Arweiniol fydd y prif gyswllt rhwng yr Awdurdod a'r cyflenwr perthnasol, a bydd yn gyfrifol am reoli'r trefniant contractiol hwnnw ac am sicrhau bod y pris(iau) a delir yn unol â thelerau'r contract.

**4.3.** Rhaid i'r Swyddog Arweiniol roi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am unrhyw ymarfer caffael arfaethedig dros £30,000 cyn dechrau'r ymarfer tendro.

4.3.1 Rhaid cyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract yn dilyn dyfarnu pob contract dros £30,000 a gwmpesir gan y Ddeddf Caffael. Mae hyn yn cynnwys trefniadau yn ôl y gofyn o dan gontractau a ddyfernir o dan gytundebau Fframwaith. Rhaid gosod yr hysbysiad ar GwerthwchiGymru, a rhaid i swyddogion gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amserlen statudol gywir.

**4.4.** Cyn cynnal unrhyw ymarfer tendro, bydd y Swyddog Arweiniol yn sicrhau:-

**4.4.1.** Na ellir ateb y gofyniad drwy gontractau neu fframweithiau corfforaethol presennol, neu drefniadau eraill. Lle mae contractau neu fframweithiau corfforaethol, neu drefniadau caffael sefydledig eraill (e.e. Marchnad Ddynamig) ar waith, dylid defnyddio'r rhain. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol pan fydd trefniant arall yn cael ei ddefnyddio, rhaid cyfiawnhau rhesymeg gadarn a rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gyfarwyddwr yr adran a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r adran o'r fewnrwyd yn ymwneud â chaffael yn cynnwys manylion am drefniadau o'r fath. Mae rhagor o gyngor a chyfarwyddyd ar gael gan yr Uned Caffael Corfforaethol ac;

**4.4.2.** Y cafwyd holl gymeradwyaethau angenrheidiol yr Awdurdod yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod, yn ogystal â darpariaeth gyllidebol, unrhyw gydsyniad neu ganiatâd angenrheidiol, neu gymeradwyaethau eraill (gan gynnwys cymeradwyaethau benthyciadau neu gymeradwyaethau ariannol eraill ac;

**4.4.3.** Y cydymffurfiwyd â phob polisi corfforaethol perthnasol arall (gan gynnwys Polisi a Methodoleg Rheoli Prosiectau, Polisi a Gweithdrefn Trin Gwybodaeth Bersonol, Canllaw Diogelu Data, Safonau'r Gymraeg a Chynllun Cydraddoldeb Strategol, amcanion llesiant y Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

**4.4.4.** Cyn dechrau Caffaeliad a Gwmpesir, rhaid i'r Swyddog Arweiniol sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y canlynol:

**4.4.4.1.** Rhoi ystyriaeth i'r amcanion a nodir yn Neddf Caffael 2023 a 3.1 o'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn.

**4.4.4.2.** Rhoi ystyriaeth i unrhyw rwystrau y gall busnesau bach a chanolig eu hwynebu ac ystyried sut y gellir gwaredu neu leihau unrhyw rwystrau o'r fath.

**4.4.4.3.** Rhoi ystyriaeth i Ddatganiad Polisi Caffael Cymru.

**4.4.5.** Bydd angen i'r Cyngor gadarnhau rhai agweddau ar addasrwydd cyflenwr i gyflawni contract.

**Lotiau**

**4.5.** Rhaid i'r Swyddog Arweiniol ystyried rhannu unrhyw gontract arfaethedig yn lotiau ar wahân, ynghyd â darparu rhesymeg glir a dogfennol ynghylch sut y bydd y lotiau'n cael eu dyfarnu, a rhaid diffinio'n glir bynciau'r lotiau a'u maint. Yn achos Caffaeliad a Gwmpesir, lle bernir ei bod yn amhriodol defnyddio lotiau, rhaid cofnodi hyn yn y dogfennau tendro, ynghyd â'r rhesymau dros hyn.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyllid Allanol** | **4.6.** | Pan fydd rhan o gyllid neu gyllid llawn ar gyfer unrhyw gontract arfaethedig yn cael ei ddarparu gan gyllidwr allanol, bydd y Swyddog Arweiniol yn caffael y contract yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn.<br><br>Lle bo amod yn nhelerau'r cyllidwr sy'n gwrthdaro â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn rhaid cyfeirio'r mater hwn at y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 er mwyn gwneud penderfyniad, oni bai y cytunir ar hyn yn flaenorol yn y cytundeb cyllid. |
| **Risg** | **4.7.** | Rhaid i'r Swyddog Arweiniol asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prynu a sut i reoli unrhyw risgiau a nodir cyn i'r ymarfer tendro ddechrau. |
| **Prynu Ail Law** | **4.8.** | Yn achos cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau wedi'u defnyddio neu ail-law mae angen i'r Swyddog Arweiniol fod yn fodlon bod y farchnad ar gyfer y fath nwyddau neu ddeunyddiau yn golygu y byddai'n afresymol tendro neu pan fydd yr amser sydd ei angen i gwblhau'r broses dendro yn debygol o arwain at golli cyfle i brynu eitem wedi'i defnyddio neu ail-law. Rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Bennaeth Gwasanaeth y swyddog arweiniol i sicrhau bod gwerth y nwyddau wedi'u defnyddio/ail-law i'w cyflenwi ar lefel briodol ac nad yw'n mynd yn groes i'r prosesau caffael. Bydd angen i unrhyw gaffaeliad dros £10,000 gael ei gyfeirio at y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro. |
| **Gweithdrefnau Tendro** | **4.9.** | Gall y Swyddog Arweiniol gyrchu canllawiau ynghylch y gwahanol weithdrefnau tendro sydd ar gael (e.e. gweithdrefn agored neu weithdrefn hyblyg gystadleuol) yng Nghanllawiau Caffael yr Awdurdod. Mae'r canllawiau ar gael ar y fewnrwyd neu gallwch gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael cyngor. |
| **Marchnad Ddynamig** | **4.10.** | Gall y Swyddog Arweiniol gynnal yr ymarfer caffael drwy ddefnyddio Marchnad Ddynamig. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor a chyfarwyddyd. |
| **Safonau'r Gymraeg** | **4.11.** | Mae gofyn i'r Swyddog Arweiniol gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n golygu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.<br><br>**4.11.1.** Mae Mesur y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg hefyd yn berthnasol i unrhyw weithgaredd a gyflawnir ar ran y Cyngor gan drydydd parti o dan drefniadau a wnaed rhwng y trydydd parti a'r Cyngor. |
| **Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)** | **4.12.** | Rhaid i'r Swyddog Arweiniol ystyried a fydd y cyflenwr/cyflenwyr yn cael Data Personol gan y Cyngor, yn casglu data personol ar ein rhan a/neu'n prosesu Data Personol mewn unrhyw ffordd arall, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Diogelu Data 2018/Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data. Os felly, rhaid ymgynghori â'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth i gael arweiniad pellach. |

**4.12.1.** Os yw'r cynnyrch/gwasanaeth sy'n cael ei gaffael yn gofyn am ddefnyddio technolegau newydd arloesol wrth brosesu Data Personol a/neu fel arall bod yn debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid yr unigolion, rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data i ganfod a lleihau unrhyw risgiau preifatrwydd. Rhaid cysylltu â'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth i gael arweiniad pellach.

**Diogelu**

**4.13.** Lle gallai'r nwyddau neu'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael effeithio ar grwpiau agored i niwed, megis plant neu oedolion agored i niwed. Rhaid cynnwys mesurau diogelu yn y contract i sicrhau bod cyflenwyr yn cadw at bolisïau sy'n amddiffyn y grwpiau hyn rhag niwed, cam-drin neu gamfanteisio.

**Asesiadau Cyllid**

**4.14.** Ar gyfer pob caffaeliad dros £30,000, mae'n rhaid ymgynghori â thîm Cyllid yr Awdurdod cyn i ymarfer caffael ddechrau i bennu'r lefel briodol o asesiadau ariannol sy'n ofynnol, yn ystod y cam gwerthuso a thrwy gydol y fframwaith/contract a ddyfernir wedi hynny (lle bo hynny'n briodol). Rhaid i swyddogion cymwys yn y tîm cyllid gynnal yr holl asesiadau priodol fel rhan o'r Broses Gaffael.

**4.15.** Rhaid cysylltu ag Adran y Gwasanaethau Corfforaethol (Tîm y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiynau) pan fydd unrhyw swyddogaethau gwasanaeth masnachol yn rhan o ymarfer caffael, er mwyn sicrhau bod unrhyw brosesau talu yn cydweddu â system fancio'r Cyngor neu'n unol â'r system honno.

**Bond**

**4.16.** Bydd y Swyddog Arweiniol yn ystyried a yw bond yn briodol ar gyfer unrhyw gontract.

**Asesiadau Iechyd a Diogelwch**

**4.17.** Rhaid ymgynghori â'r tîm Iechyd a Diogelwch cyn dechrau ymarfer caffael i bennu'r lefel briodol o asesiadau iechyd a diogelwch sy'n ofynnol, a hynny yn ystod y cam gwerthuso a thrwy gydol y fframwaith/contract a ddyfernir wedi hynny (lle bo hynny'n briodol). Rhaid i swyddogion â chymwysterau addas yn y tîm iechyd a diogelwch gynnal yr holl asesiadau priodol fel rhan o'r Broses Gaffael.

**Yswiriant**

**4.18.** Rhaid ymgynghori â thîm Rheoli Risg yr Awdurdod i bennu'r math priodol a'r lefel briodol o yswiriant (e.e. Atebolrwydd Cyflogwyr, Atebolrwydd Cyhoeddus, Indemniad Proffesiynol ac ati) ar gyfer rhwymedigaeth bosibl yr Awdurdod y mae'n rhaid ei gynnal am hyd y Contract/Fframwaith.

**Carbon Sero Net / Cynaliadwyedd**

**4.19.** Bydd y Swyddog Arweiniol yn cynnwys darpariaethau addas yn y ddogfennaeth dendro ynghylch sut y gallant leihau effaith carbon nwyddau/gwasanaethau neu waith fel y bo'n briodol.
Yn achos unrhyw dendr/dyfynbris sy'n werth dros £30,000 rhaid i'r Swyddog Arweiniol roi ystyriaeth i faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gan ddefnyddio templed Asesiad Risg Cynaliadwy. Rhaid ymgynghori â'r Uned Caffael Corfforaethol cyn unrhyw dendr/dyfynbris/contract yn ôl y gofyn er mwyn cytuno ar y dull a ddefnyddir.

**Budd i'r Gymuned**

**4.20.** Rhaid i'r Swyddog Arweiniol ddefnyddio ymagwedd Budd i'r Gymuned wrth ymdrin â phob caffaeliad priodol ac ystyried Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Yn achos unrhyw dendr sy'n werth dros £1 filiwn, rhaid i'r Swyddog Arweiniol, fel gofyniad lleiaf, weithredu, casglu a chofnodi'r Budd i'r Gymuned gan ddefnyddio Offeryn Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur y Budd i'r Gymuned. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol roi ystyriaeth i ddyletswydd yr Awdurdod i geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal drwy gaffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol, a bydd yn nodi sut y bydd pob caffaeliad yn cydymffurfio â'r ddyletswydd honno.

**4.20.1.** Pan fo'r Awdurdod yn bwriadu dyfarnu contract adeiladu mawr, bydd y Swyddog Arweiniol yn sicrhau bod y contract yn cynnwys cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol yn unol â chymalau enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Rhaid ymgynghori â'r Uned Caffael Corfforaethol cyn unrhyw dendr/dyfynbris/contract yn ôl y gofyn er mwyn cytuno ar y dull a ddefnyddir.

**Contract Consesiwn**

**4.21.** Mae'n bosibl y bydd unrhyw gontractau lle mae'r contractwr yn darparu'r gwaith/gwasanaethau ar ran yr Awdurdod ac yn manteisio ar y gwaith neu'r gwasanaethau hynny er ei fudd ei hun yn cael eu cwmpasu gan Gontract Consesiwn. Mae gan gontractau consesiwn drothwy uwch i'w ddefnyddio (Gweler y tudalennau caffael ar y fewnrwyd am y trothwy diweddaraf). Rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael arweiniad.

**Cynnal a Chadw Eiddo**

**4.22.** Yn achos unrhyw waith sy'n ymwneud â chyfleusterau, eiddo neu dir sy'n eiddo i'r Cyngor, rhaid cysylltu â'r tîm Dylunio Eiddo, Asedau neu Gynnal a Chadw cyn gynnal unrhyw dendr neu ddyfarnu contract.

**TG**

**4.23** Rhaid i'r Swyddog Arweiniol sicrhau bod yr holl ofynion technegol, diogelwch, llywodraethu gwybodaeth, cysylltedd a chymorth perthnasol yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Gwasanaethau Digidol cyn dechrau unrhyw broses gaffael sy'n ymwneud â nwyddau neu wasanaethau digidol. Mae hyn yn cynnwys gwneud cais i'r Gwasanaethau Digidol am brynu unrhyw offer TG; cyflwyno mynegiant o ddiddordeb lle mae'r caffaeliad yn cynnwys systemau neu wasanaethau (gan gynnwys systemau TG, meddalwedd, teledu cylch cyfyng, deallusrwydd artiffisial, gwefru cerbydau trydan, lletya, prosesu data, y rhyngrwyd pethau, neu integreiddio systemau); ac ymgynghori â Seiberddiogelwch lle mae angen mynediad at rwydweithiau, systemau neu ddyfeisiau corfforaethol.

## 5. Trefniadau Cydweithredol

**5.1.** Pan fo'r Cyngor yn ymrwymo i unrhyw Drefniant Cydweithredol a sefydlir gan sefydliad arall, neu'n defnyddio neu'n cymryd rhan mewn trefniant o'r fath, bernir bod hwnnw'n gontract at ddibenion y Rheolau Gweithdrefnau Contract hyn a bydd Swyddogion Arweiniol yn rhoi sylw i Ddeddf Caffael 2023, Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024/782 a Chanllawiau Caffael yr Awdurdod wrth ddefnyddio trefniadau/cytundebau o'r fath.

**5.2.** Rhaid i'r swyddog arweiniol gael cymeradwyaeth gan y Tîm Rheoli Corfforaethol pan fo'r Cyngor yn bwriadu gweithredu fel Awdurdod Arweiniol ar gyfer tendr rhanbarthol neu gydweithredol ar ran cyrff cyhoeddus eraill, cyn dechrau unrhyw weithgaredd caffael.
Ni fydd cymeradwyaeth o'r fath yn cael ei rhoi oni bai bod asesiad risg wedi'i gynnal a bod y maes gwasanaeth a'r Uned Caffael Corfforaethol hefyd wedi dangos gallu, adnoddau ac awdurdod strategol i arwain y caffaeliad ar ran eraill.

## 6. Fframweithiau

**Cytundebau Fframwaith**

**6.1.** **Fframwaith (Sir Gaerfyrddin yn unig)**
Ac eithrio yn achos Fframweithiau Agored (neu Fframweithiau sy'n ddarostyngedig i adran 9 - Cyffyrddiad Ysgafn), rhaid i gyfnod Cytundeb Fframwaith beidio â bod yn fwy na phedair blynedd, oni bai bod y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw i gyfnod Cytundeb Fframwaith fod yn fwy na phedair blynedd oherwydd eu bod yn fodlon bod natur y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sydd i'w cyflenwi o dan gontractau a ddyfernir yn unol â'r Cytundeb Fframwaith perthnasol yn golygu bod angen tymor hwy.

**6.1.1.** Gellir dyfarnu contractau sy'n seiliedig ar Gytundebau Fframwaith naill ai drwy:-

**6.1.1.1.** Gweithredu'r telerau a bennwyd yn y cytundeb fframwaith (pan fydd y fath delerau'n ddigon manwl gywir ar gyfer y contract yn ôl y gofyn dan sylw a phan fydd y fframwaith yn nodi dull gwrthrychol ar gyfer dewis cyflenwr) heb ailagor cystadleuaeth neu;

**6.1.1.2.** Lle nad yw'r telerau a bennwyd yn y cytundeb fframwaith yn ddigon penodol neu'n gyflawn ar gyfer y contract yn ôl y gofyn dan sylw, drwy gynnal mini-gystadleuaeth yn unol â'r canlynol:-

- Gwahodd yr holl gyflenwyr yn y Cytundeb Fframwaith sy'n gallu cyflawni pwnc y contract i gyflwyno tendrau ysgrifenedig;
- Pennu terfyn amser sy'n ddigon hir i ganiatáu i dendrau ar gyfer pob contract penodol gael eu

cyflwyno, gan gymryd i ystyriaeth gymhlethdod pwnc y contract.
- Dyfarnu pob contract i'r tendrwr ar sail y Meini Prawf Dyfarnu a nodwyd ym manyleb y Cytundeb Fframwaith.

**6.1.2.** Yn achos contractau sydd dros y trothwy rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol cyn cynnal unrhyw fini-gystadleuaeth i gytuno ar y dull a ddefnyddir.

**6.1.3.** Rhaid cyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract ar gyfer pob trefniant yn ôl y gofyn dros £30,000 yn dilyn dyfarnu pob contract yn ôl y gofyn o dan fframweithiau a gwmpesir gan Ddeddf Caffael 2023 (Gweler RhGC 17 i gael rhagor o fanylion). (Mae fframweithiau sy'n ddarostyngedig i adran 9 - Cyffyrddiad Ysgafn wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn)

**6.1.4.** Rhaid cyhoeddi Hysbysiadau Talu Contract ar gyfer unrhyw gontractau yn ôl y gofyn sy'n werth dros £30,000. (Gweler RhGC 17 i gael rhagor o fanylion).

## 6.2. Fframweithiau Agored (Sir Gaerfyrddin yn unig)

**Fframweithiau Agored**

**6.2.1.** Mae Fframwaith Agored, yn unol â Deddf Caffael 2023, yn gynllun o fframweithiau sy'n darparu ar gyfer dyfarnu fframweithiau olynol ar yr un telerau i raddau helaeth. Rhaid i'r Fframwaith Agored ddarparu ar gyfer dyfarnu fframwaith o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod cyntaf o dair blynedd a phob cyfnod o bum mlynedd gan ddechrau ar ddiwrnod dyfarnu'r fframwaith nesaf.

**6.2.2.** Yn achos fframwaith a gaiff ei ddyfarnu o dan Fframwaith Agored, mae gwerth y Fframwaith i'w drin fel un sy'n cynnwys gwerth yr holl fframweithiau a ddyfarnwyd, neu a ddyfernir o dan y Fframwaith Agored.

**6.2.3.** Gall Fframwaith Agored bara hyd at 8 mlynedd.

**Awdurdod Caffael ar y Cyd / Caffael Canoledig**

## 6.3. Awdurdod Caffael ar y Cyd / Caffael Canoledig - Fframweithiau / trefniadau arweiniol yr Awdurdod

**6.3.1.** Wrth wneud trefniant caffael ar y cyd ar ran yr Awdurdod a chyrff cyhoeddus eraill, rhaid i'r swyddog arweiniol benderfynu a yw'r Awdurdod yn cynnal Caffaeliad ar y Cyd NEU gaffaeliad fel awdurdod caffael canoledig yn unol â Deddf Caffael 2023. Rhaid cysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael cyngor a chytuno ar y dull gweithredu.

**6.3.2.** Wrth wneud trefniant caffael ar y cyd ar ran yr Awdurdod a chyrff cyhoeddus eraill, rhaid i'r Swyddog Arweiniol sicrhau bod y cyrff cyhoeddus eraill sydd i'w cynnwys yn y trefniant hwnnw yn cael eu nodi yn yr hysbyseb a dogfennau'r contract.

6.3.3. Rhaid i'r gwerth amcangyfrifedig a roddir gynnwys defnydd posibl y trefniant ar y cyd hwnnw gan y cyrff cyhoeddus hynny a nodir.

6.3.4. Ystyrir bod gofynion y Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn wedi'u diwallu pan sefydlir y fframwaith ac ar gyfer contractau yn ôl y gofyn dilynol.

**Prynu Canoledig**

**6.4. Gweithgareddau / Cyrff Prynu Canoledig - Defnyddio trefniadau / fframweithiau cyrff cyhoeddus eraill**

6.4.1. Ystyrir bod unrhyw gontract/fframwaith yr ymrwymir iddo drwy gydweithio ag awdurdodau lleol eraill neu gyrff cyhoeddus eraill, lle mae proses gystadleuol wedi'i dilyn, sy'n cydymffurfio â rheolau gweithdrefnau contractau'r sefydliad arweiniol, a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn. Cyn ymrwymo i unrhyw drefniant o'r fath, rhaid i'r Swyddog Arweiniol ymgynghori a gofyn am gymeradwyaeth gan yr Uned Caffael Corfforaethol.

6.4.2. Gall awdurdodau Cymru ddefnyddio fframweithiau a sefydlwyd gan gyrff llywodraeth ganolog y DU (y cyfeirir atynt fel "trefniadau caffael a gedwir yn ôl"). Wrth ddyfarnu contractau o dan fframweithiau o'r fath, rhaid i awdurdodau Cymru gadw at y telerau a'r amodau a osodir gan y fframwaith, gan sicrhau y cydymffurfir â Deddf Caffael 2023 a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024.

6.4.3. Pan fo trefniant caffael a gedwir yn ôl wedi'i ddefnyddio, rhaid i awdurdodau datganoledig Cymru sy'n ymrwymo i gontract cyhoeddus sydd â gwerth amcangyfrifedig o fwy na £5 miliwn gyhoeddi copi o'r contract.

**Aelodaeth o Drefniadau Caffael eraill**

**6.5. Aelodaeth o Drefniadau Caffael eraill**

6.5.1. Rhaid i unrhyw aelodaeth ffurfiol newydd o unrhyw sefydliad sydd â'r pwrpas o hwyluso trefniadau caffael ar y cyd ag Awdurdodau lleol eraill a/neu gyrff sector cyhoeddus, gan gynnwys aelodaeth neu ddefnydd cychwynnol o unrhyw Gonsortia neu sefydliad masnachu sector cyhoeddus, gael ei chymeradwyo gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151.

# 7. Gofynion Cyn Caffael

## 7.1. Amcangyfrif y gwerth

**7.1.1.** Rhaid amcangyfrif gwerth y contract fel yr uchafswm y gellid disgwyl ei dalu o dan y contract, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, symiau a dalwyd eisoes. (Yn unol ag Atodlen 3 o Ddeddf Caffael 2023).

**7.1.2.** Os nad yw'r Swyddog Arweiniol yn gallu pennu gwerth gwasanaethau arfaethedig, mae'r Swyddog Arweiniol i'w drin fel pe bai wedi amcangyfrif gwerth y contract fel swm sy'n fwy na'r trothwy ar gyfer y math o gontract. Os yw'r Swyddog Arweiniol yn ansicr ynghylch sut i amcangyfrif gwerth contract a/neu os yw'n ansicr a yw'r contract dros y trothwy ar gyfer y math perthnasol o gontract, dylai'r Swyddog Arweiniol ofyn am gyngor gan yr Uned Caffael Corfforaethol.

Cyfuno

**7.1.3.** Cofiwch y bydd yn rhaid i swyddogion, wrth amcangyfrif gwerth y contractau perthnasol, ystyried egwyddor cyfuno. Gall ailbrynu nwyddau/gwasanaethau/gwaith tebyg dros gyfnod parhaus gyfateb i ofyniad gyda'i gilydd sy'n uwch na'r Trothwy Caffael neu unrhyw drothwy is sydd gan yr Awdurdod a bennir yn y Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn. Felly, rhaid cadw at y broses gaffael briodol.

# 8. Trothwyon (pob gwerth yn cynnwys TAW)

Dyfynbrisiau

## 8.1. Dyfynbrisiau

**8.1.1. Hyd at £10,000**
Dylai'r Swyddog Arweiniol fod yn fodlon y cafwyd y gwerth gorau am arian, ac y cymerwyd gofal rhesymol i gael nwyddau, gwaith neu wasanaethau o ansawdd digonol am bris cystadleuol. Dylai'r Swyddog Arweiniol gadw cadarnhad ynghylch gwerth am arian ar ffeil. Dylid ceisio o leiaf un dyfynbris gan gyflenwr o Sir Gaerfyrddin.

**8.1.2. £10,000 - £30,000**
Dylid ceisio o leiaf 3 dyfynbris o ffynonellau cystadleuol a dylent gael eu cadarnhau yn ysgrifenedig, drwy lythyr neu e-bost. Rhaid cadw cofnod dogfennol o'r gwerthusiad a'r penderfyniad i ddyfarnu. Dylid ceisio o leiaf un dyfynbris gan gyflenwr o Sir Gaerfyrddin.

**8.1.3. £30,000 - £100,000**

**8.1.3.1.** Rhaid hysbysebu pob dyfynbris sy'n werth mwy na £30,000 ar wefan GwerthwchiGymru; (www.GwerthwchiGymru.llyw.cymru) yn seiliedig ar yr un fanyleb, meini prawf gwerthuso a dyddiad cau. Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn cyhoeddi'r hysbyseb, oni bai y cytunir fel arall. Mewn amgylchiadau priodol gellir hepgor y gofyniad hwn yn dilyn cymeradwyaeth flaenorol gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a Phennaeth Gwasanaeth yr Adran berthnasol.

**8.1.3.2.** Bydd dyfynbrisiau a wneir yn unol â 8.1.3.1 yn cael eu cyflwyno yn unol â'r gofynion a nodir yn y Gwahoddiad i Gyflwyno Dyfynbris, a'u dychwelyd yn electronig drwy gyfleuster e-bost diogel neu ddatrysiad e-dendr priodol.

**8.1.3.3.** Bydd y Swyddog Arweiniol yn gyfrifol am gadw cofnodion dogfennol digonol o'r holl ymarferion ceisio dyfynbrisiau a gynhelir (gan gynnwys y broses werthuso) (Gweler 10.1 i gael rhagor o fanylion).

**8.1.3.4.** Gellir cyflwyno dyfynbris yn unol â'r gweithdrefnau drwy gyflwyno naill ai archeb brynu swyddogol neu lythyr a lofnodir gan y swyddog priodol, neu drwy gontract neu gytundeb a lofnodir yn unol â'r Rheolau hyn.

**8.1.3.5.** Yn dilyn cyhoeddi Gwahoddiadau i Gyflwyno Dyfynbris, os mai dim ond un dyfynbris sy'n dod i law, rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan Bennaeth Gwasanaeth yr adran berthnasol.

**8.1.3.6.** Yn achos ymarferion caffael dros £30,000, rhaid i Ffurflen Cofnodi Tendr gael ei llenwi a'i llofnodi gan Ben-swyddog Caffael - Arweinydd Categori yr Uned Caffael Corfforaethol (neu swyddog dirprwyedig) cyn hysbysebu'r tendr, sy'n cynnwys y gofyniad i gadarnhau bod y broses yn cydymffurfio.

Tendrau

## 8.2. Tendrau

### 8.2.1. £100,000

**8.2.1.1.** Yn ogystal ag unrhyw ofynion o dan Ddeddf Caffael 2023, rhaid rhoi hysbysiad cyhoeddus am 21 diwrnod o leiaf ar GwerthwchiGymru.llyw.cymru.

**8.2.1.2.** Bydd yr hysbysiad cyhoeddus yn cyfleu natur a dibenion y contract, yn gwahodd tendrau ar gyfer ei gyflawni, ac yn nodi'r dyddiad a'r amser diweddaraf ar gyfer cyflwyno tendrau a'r porth i'w ddefnyddio i wneud hynny. Bydd y Gwahoddiad i Dendro yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn, gan gynnwys y meini prawf gwerthuso.

Tendrau sydd dros y trothwy

**8.3. Tendrau sydd dros y trothwy**

**8.3.1.** Mae contractau sydd dros y trothwy yn ddarostyngedig i Ddeddf Caffael 2023.

**8.3.2.** Os yw gwerth amcangyfrifedig contract yn fwy na'r trothwy presennol a'i fod yn Gaffaeliad a Gwmpesir, rhaid tendro am y contract yn unol â Deddf Caffael 2023, a hefyd yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn. Yn yr holl amgylchiadau o'r fath, rhaid cael cyngor priodol gan yr Uned Caffael Corfforaethol.

**8.3.3.** Mae'r trothwyon yn newid bob dwy flynedd. Gellir dod o hyd i'r trothwy presennol ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a gwaith ar y tudalennau caffael ar y fewnrwyd.

**8.4. Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Penodol Eraill**

Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn

**8.4.1.** Yn achos contractau ar gyfer Contractau Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Penodol eraill (fel y nodwyd yn Atodlen 1 o Reoliadau Caffael (Cymru) 2024) sy'n fwy na'r trothwy perthnasol, ni fydd ystod lawn y Ddeddf yn berthnasol a defnyddir cyfundrefn "Cyffyrddiad Ysgafn". Rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol cyn symud ymlaen â'r math hwn o dendro.

## 9. Paratoi ar gyfer Dyfynbrisiau (£30,000-£100,000) a Thendrau (dros £100,000)

**9.1.** Cyn gwneud unrhyw Weithdrefn Dendro (neu Ddyfynbris dros £30,000) bydd Swyddog Arweiniol yn gwneud y canlynol:-

**9.1.1.** sicrhau bod Manyleb, a fydd yn sail i'r Contract, wedi ei pharatoi,

**9.1.2.** gosod y Meini Prawf Gwerthuso i'w defnyddio i ddewis y cynigydd/cynigwyr llwyddiannus o blith y rhai a gyflwynodd dendr neu ddyfynbris.

**9.1.3.** sefydlu Panel Gwerthuso,

**9.1.4.** lle bo'n briodol, ceisio cymeradwyaeth gan yr Uned Caffael Corfforaethol i gymhwyso amodau cymryd rhan mewn proses dendro gystadleuol.

**Meini Prawf Gwerthuso**

**9.2.** Bydd datganiad sy'n nodi'r Meini Prawf Gwerthuso i'w defnyddio yn cael eu cynnwys yn y ddogfennaeth dendro/dyfynbris ynghyd â'r pwysoliadau perthnasol. Rhaid i'r meini prawf hyn fod yn agored, yn dryloyw, yn anwahaniaethol ac yn gymesur bob amser.

**9.3.** Rhaid dyfarnu contractau ar sail "y Tendr Mwyaf Manteisiol" a gellir dewis asesu'r gymhareb pris-ansawdd gorau, neu'r pris isaf yn unig. Rhaid i'r meini prawf Dyfarnu a'r Broses Werthuso fod yn gysylltiedig â phwnc y contract a gallai gynnwys costio cylch oes, agweddau ansoddol, amgylcheddol a/neu gymdeithasol.

**9.3.1.** Mae angen i'r meini prawf ar gyfer gwerthuso'r holl ymarferion a arweinir gan yr Awdurdod sydd dros £30,000 (gan gynnwys ymarferion yn ôl y gofyn lle mae'r fframwaith yn caniatáu newid pris/ansawdd) sicrhau bod o leiaf 60% yn seiliedig ar bris. Lle nad yw hyn yn briodol rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

**9.3.2.** Bydd trefniadau yn ymwneud â chomisiynu Addysg Arbenigol a Gofal Cymdeithasol yn ôl disgresiwn y Cyfarwyddwr cyfrifol.

**Panel Gwerthuso**

**9.4.** Bydd y Swyddog Arweiniol yn sefydlu grŵp o swyddogion i gynnal yr ymarfer gwerthuso a fydd fel arfer yn parhau'n gyson drwy gydol y broses a bydd ganddo'r cymwysterau a/neu'r arbenigedd angenrheidiol i gynghori'r Swyddog Arweiniol ynghylch yr holl faterion priodol.

**9.4.1.** Ar gyfer pob Tendr dros y Trothwy Caffael bydd Pen-swyddog Caffael o'r Uned Caffael Corfforaethol yn arwain y Panel Gwerthuso Tendrau.

**Manyleb**

**9.5.** Dylai pob caffaeliad fod yn seiliedig ar fanyleb benodol; a dylai'r Swyddog Arweiniol sicrhau bod unrhyw ymarfer tendro neu gyflwyno dyfynbrisiau yn cael ei gynnal yn unol â'r holl bolisïau corfforaethol perthnasol.
Dylai ffactorau ansawdd, i'r graddau mwyaf posibl, gael eu cynnwys yn y fanyleb, y mae'n rhaid iddi fod yn gymesur ac yn briodol ar gyfer y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau i'w prynu gan nodi'n glir y safonau gofynnol fydd eu hangen ar yr Awdurdod.

**Ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad**

**9.6.** Yn unol â Deddf Caffael 2023, gall y Swyddog Arweiniol ymgysylltu'n rhagarweiniol â'r farchnad (e.e. ymgynghori â'r farchnad) cyn dechrau ymarfer caffael gyda golwg ar baratoi'r gwaith caffael a rhoi gwybod i ddarpar dendrwyr am y cynlluniau a'r gofynion caffael. Rhaid rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol cyn ymgynghori â'r farchnad.

**9.6.1.** Gall y Swyddog Arweiniol ymgysylltu'n rhagarweiniol â'r farchnad yn unol ag adran 16 o Ddeddf Caffael 2023. Os bydd ymgysylltiad rhagarweiniol â'r farchnad yn cael ei gynnal, rhaid cyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad cyn cyhoeddi hysbysiad tendr, neu bydd yn rhaid darparu rhesymau dros beidio â gwneud hynny yn yr hysbysiad tendro. Rhaid hysbysu'r Uned Caffael Corfforaethol cyn briffio'r farchnad.

**Amodau Cymryd Rhan**

**9.7.** O dan Ddeddf Caffael 2023 mae gan y Cyngor y pŵer i bennu amodau cymryd rhan mewn caffaeliad cystadleuol os yw'r Cyngor wedi'i fodloni bod yr amodau yn ffordd gymesur o sicrhau bod gan gyflenwyr y gallu cyfreithiol ac ariannol, a'r gallu technegol, i gyflawni'r contract sy'n cael ei gaffael. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr Uned Caffael Corfforaethol er mwyn pennu amodau cymryd rhan mewn caffaeliad.

**Hysbysiad manylion contract (o dan y trothwy)**

**9.8.** Yn unol ag Adran 87(3) o'r Ddeddf Caffael, bydd yn ofynnol i'r awdurdod contractio gyhoeddi hysbysiad manylion contract cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ymrwymo i 'gontract hysbysadwy sydd o dan y trothwy'.

## 10. Y Broses Gaffael

**10.1. Cyflwyno Tendrau (dros £100,000)**

(Yn achos dyfynbrisiau sydd o dan £100,000 gweler 8.1).

**e-dendro**

**10.1.1.** Tendro Electronig (e-Dendro)

Dylai ceisiadau am wahoddiadau i dendro gael eu cyflwyno drwy ddulliau electronig gan ddefnyddio'r porth e-dendro. Bydd hyn yn sicrhau:

(a) y bydd y porth e-dendro ar gael i gyflwyno tendrau dim ond hyd at yr amser a'r dyddiad cau a nodir. Bydd dyddiad ac amser pob tendr a gyflwynir drwy'r porth e-dendro yn cael eu cofnodi'n electronig.

(b) bod yr e-dendrau a gyflwynir yn cael eu cadw'n ddiogel yn y porth na chaiff ei agor tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau neu ddyfynbrisiau.

Ni fydd unrhyw dendr sy'n cael ei gyflwyno ar ôl y dyddiad a'r amser ar gyfer cyflwyno tendrau yn cael ei ystyried ond bydd yn cael ei gadw heb ei agor ar y porth tan ar ôl i dendr gael ei dderbyn, ond gellir agor unrhyw dendr o'r fath a'i ystyried:-

- os nad oedd unrhyw dendr arall wedi dod i law, neu
- lle nad oes tendr arall yn dderbyniol, ar yr amod bod y tendr hwyr wedi ei gyflwyno cyn agor y tendrau annerbyniol.

Fodd bynnag, os yw gwerth y contract dros y trothwy, gallwch ond ystyried y tendr hwyr os yw pob tendr arall a ddaeth i law yn 'anaddas' (fel y'i diffinnir yn adran 43(2) o Ddeddf Caffael 2023) ac ar yr amod nad ydych yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r contract fel yr hysbysebir.

**10.2. Agor Tendrau**

Bydd pob tendr a gyflwynir yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn yn cael ei agor dim ond ar ôl i'r amser a bennwyd ar gyfer cyflwyno tendrau ddod i ben.

Ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau ddod i ben bydd modd i swyddog o'r Uned Caffael Corfforaethol, neu swyddog o adran sydd wedi cael caniatâd i gael mynediad i'r porth, weld y tendrau a gyflwynir.

**Gwallau**

**10.2.1.** Ni chaniateir addasu nac amodi unrhyw dendr(au) (ac eithrio i'r graddau a ganiateir wrth ddefnyddio Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol, neu i'r graddau yr ydych yn cadw'r hawl i negodi wrth gaffael contract consesiwn). Bydd gwallau a geir wrth archwilio tendrau yn cael eu trin yn un o'r ffyrdd canlynol:-

**10.2.1.1.** Os canfyddir gwall rhifyddol bydd y tendrwr yn cael cyfle i gywiro'r gwall(au), ac eithrio hynny, heblaw am wall(au) rhifyddol dilys, ni chaniateir unrhyw addasu, diwygio nac amodi arall.

**10.2.1.2.** Os nad yw'r gwall yn rhifyddol bydd y tendrwr yn cael manylion y gwall(au) a bydd yn cael cyfle i gadarnhau heb newid neu dynnu'r tendr yn ôl.

**Tendr afresymol o isel**

**10.3.** Os bydd y Swyddog Arweiniol o'r farn fod y tendr yn afresymol o isel o ran gwerth, yn unol â Deddf Caffael 2023, bydd yn rhaid i'r Swyddog Arweiniol ofyn i'r tendrwr/tendrwyr egluro'r pris neu'r costau a gynigir mewn tendr lle mae'n ymddangos yn afresymol o isel. Rhaid ymgynghori â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael arweiniad.

**10.4. Gwerthuso a Derbyn Tendrau**

**10.4.1.** Lle mae tendrau wedi dod i law ac wedi'u hagor yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn, bydd y Swyddog Arweiniol, ar y cyd â'r panel gwerthuso tendrau, yn archwilio'r tendrau a ddaeth i law yn unol â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw a bydd yn nodi'r tendr neu'r tendrau sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian, h.y. y cynnig/cynigion mwyaf manteisiol (o ran ansawdd a phris) i'r Awdurdod, ac eithrio lle y pennwyd ymlaen llaw bod y pris isaf yn bodloni'r meini prawf priodol.

**10.4.2.** Rhaid i'r Swyddog Arweiniol roi ystyriaeth briodol i egwyddor Cyfansoddiad yr Awdurdod a chydymffurfio â hi, sef mai dim ond swyddogion a gyflogir gan yr Awdurdod gaiff sgorio tendrau wrth eu gwerthuso.

**10.4.3.** Ar gyfer Ymarferion Tendr Caffael sy'n amodol ar / a lywodraethir gan / gyda Chyd-bwyllgor Llywodraethu, caiff croestoriad o swyddogion o gyrff Sector Cyhoeddus eraill, yn amodol ar y cyrff hynny yn cael eu cymeradwyaeth eu hunain ymlaen llaw, eistedd ar banel gwerthuso tendr yr Awdurdod a darparu sgôr.

**10.4.4.** Ar yr amod bod y ddarpariaeth gyllidebol briodol ar gael, gall y Swyddog Arweiniol dderbyn tendr, mwy nag un tendr, neu ran/rhannau o dendr.

**Cyfnod Segur a Hysbysiad Dyfarnu Contract**

**10.5.** Yn achos contractau sydd dros y trothwy ac yn ddarostyngedig i Ddeddf Caffael 2023, cyn ymrwymo i gontract cyhoeddus, rhaid i awdurdod contractio gyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contract, ac yn achos unrhyw ddyfarniad rhaid cael cyfnod segur o 8 diwrnod gwaith o leiaf o'r diwrnod y cyhoeddir yr Hysbysiad Dyfarnu Contract.

**Negodiadau ar ôl Tendro**

**10.6.** Ac eithrio wrth ddefnyddio'r Weithdrefn Hyblyg Gystadleuol, ni chaniateir cynnal unrhyw negodiadau ynghylch agweddau sylfaenol ar gontractau a allai effeithio'n sylweddol ar fanyleb y tendr, ac sy'n debygol o ystumio cystadleuaeth.

Gellir cynnal trafodaethau gyda thendrwyr er mwyn egluro eu ceisiadau yn unig ac ni ddylai gynnwys gwahaniaethu yn erbyn unrhyw dendrwr.

**Cadw Dogfennau**

**10.7.** Bydd y Swyddog Arweiniol yn cadw'r holl gofnodion a dogfennau sy'n ymwneud ag ymarfer cyflwyno dyfynbrisiau neu dendro yn unol â Deddf Caffael 2023, Amserlen Cadw Dogfennau'r Awdurdod (ar y fewnrwyd) ac unrhyw ofynion eraill a bennir gan gyrff ariannu allanol neu y cytunwyd arnynt gyda nhw.

**Ymgynghorwyr**

**10.8. Defnyddio Ymgynghorwyr**

**10.8.1.** Os bydd yr Awdurdod yn defnyddio ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran i gynnal unrhyw gaffaeliad, rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gytuno ar y dull a ddefnyddir. Rhaid i'r ymgynghorydd/ymgynghorwyr gynnal yr ymarfer tendro yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn a'r Swyddog Arweiniol sy'n gyfrifol am y penderfyniad i ddyfarnu.

**10.8.2.** Bydd yr holl gontractau ar gyfer ymgynghorwyr a chynghorwyr allanol yn gofyn yn benodol bod yr ymgynghorwyr neu'r cynghorwyr yn darparu'n ddiymdroi yr holl ddogfennau a chofnodion y maent yn eu cadw yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir ar gais y Swyddog Arweiniol, ac yn cyflwyno'r holl ddogfennau a chofnodion o'r fath i'r Swyddog Arweiniol ar ddiwedd y contract.

**10.8.3.** Bydd y Swyddog Arweiniol yn sicrhau bod gan unrhyw ymgynghorydd sy'n gweithio i'r Cyngor yr yswiriant indemniad priodol am hyd y contract.

## 11. Dyfarnu'r Contract

**Cymeradwyaeth i Ddyfarnu**

**11.1.** Ar gyfer unrhyw gaffaeliad sydd dros y Trothwy, rhaid i'r Swyddog Arweiniol gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Bennaeth Gwasanaeth cyn bwrw ymlaen i ddyfarnu unrhyw gontract, cytundeb fframwaith a mini-gystadleuaeth.

**Hysbysiad Manylion Contract**

**11.2.** Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract cyn pen 30 diwrnod ar ôl ymrwymo i'r contract yn achos pob contract a ddyfernir sydd dros £30,000 (120 diwrnod ar gyfer contract cyffyrddiad ysgafn).

**Adroddiad Gwerthuso Tendrau**

**11.3.** Rhaid i'r Swyddog Arweiniol lunio Adroddiad Gwerthuso Tendrau ar gyfer pob contract, cytundeb fframwaith a mini-gystadleuaeth a ddyfernir sydd dros y trothwy. Rhaid i'r adroddiad ysgrifenedig gofnodi'r holl benderfyniadau allweddol drwy gydol y broses dendro. Mae templed Adroddiad Gwerthuso safonol ar gael gan yr Uned Caffael Corfforaethol.

**11.4.** Rhaid rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am bob contract yr ymrwymir iddo er mwyn ei gynnwys yn y Gofrestr Gontractau.

**Telerau ac Amodau**

**11.5.** Telerau ac Amodau Contract

**11.5.1.** Bydd telerau ac amodau'r Awdurdod yn berthnasol i gontractau, a fydd yn cael eu cynnwys gyda phob Gwahoddiad i Dendro. Rhaid i eithriadau i'r rheol hon gael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro.

**11.5.2.** O dan y rheolau hyn ni chaniateir contract sydd yn unol â thelerau ac amodau safonol y contractwr ei hun, neu delerau sy'n sylweddol wahanol i'r rheiny sydd wedi'u cynnwys neu y cyfeirir atynt adeg tendro, oni bai bod hyn yn cael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro.

**11.5.3.** Mae'r rheolau sy'n ymwneud â manylebau technegol yn golygu bod unrhyw gyfeiriad at safon dechnegol, gwneuthuriad neu fath yn cael ei ragflaenu gan y geiriau "neu gyfwerth".

**11.5.4.** Bydd pob contract â gwerth neu swm sy'n fwy na £50,000, yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan o leiaf ddau swyddog, neu (yn ôl disgresiwn y Swyddog Monitro) gosodir sêl gyffredin yr Awdurdod arno a bydd yn nodi:-

- y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sydd i'w cyflenwi neu eu cyflawni;
- y pris sydd i'w dalu, ynghyd â datganiad ynghylch swm unrhyw ostyngiad neu swm arall sydd i'w dynnu allan;
- y cyfnod ar gyfer cwblhau'r contract, ac

- y fath amodau a thelerau eraill y gellir cytuno arnynt rhwng y partïon.

**11.5.5.** Bydd y contract yn cynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr gael caniatâd ysgrifenedig y Swyddog Arweiniol cyn neilltuo neu is-osod y contract neu unrhyw ran ohono, heblaw fel y caniateir yn benodol o dan delerau'r contract.

**11.5.6.** Os yw codau ymarfer safonol neu fanylebau Safon Brydeinig, Ewropeaidd neu Ryngwladol perthnasol ar gael ac yn gyfredol ar y dyddiad tendro, bydd y contract yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl nwyddau, gwasanaethau neu waith a ddefnyddir neu a gyflenwir fod yn unol â'r safon honno o leiaf.

**11.5.7.** Rhaid i bob contract nodi os yw'r contractwr yn methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau contractiol (datganedig neu ymhlyg) yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gall yr Awdurdod: -

- canslo'r contract cyfan neu ran ohono;
- cwblhau'r contract;
- adennill oddi wrth y contractwr unrhyw gostau ychwanegol wrth gwblhau’r contract;
- cymryd camau cyfreithiol eraill yn erbyn y contractwr.

ac i'r diben hwn bydd y Swyddog Arweiniol yn sicrhau bod rhwymedigaethau'r contract yn cael eu monitro.

**11.5.8.** Rhaid i bob contract ysgrifenedig nodi y bydd y contractwr yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau cymwys sy'n ymwneud â gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd gan gynnwys Deddf Llwgrwobrwyo 2010, ond heb fod yn gyfyngedig iddi.

**11.5.9.** Bydd yn ofynnol i’r contractwr indemnio’r Awdurdod rhag:-

**11.5.9.1.** unrhyw hawliad mewn perthynas ag atebolrwydd cyflogwr yn erbyn yr Awdurdod neu'r contractwr gan unrhyw weithwyr y contractwr neu unrhyw is-gontractwr; ac

**11.5.9.2.** unrhyw hawliad am anaf corfforol i drydydd parti neu ddifrod i eiddo trydydd parti, a

**11.5.9.3.** Bydd gan y contractwr yswiriant priodol hyd at lefel y cytunwyd arni (gweler RhGC 4.16) a phan ofynnir iddo wneud hynny, bydd yn gallu dangos tystiolaeth foddhaol ei fod yn meddu ar y cyfryw yswiriant.

## 12. Rheoli Contractau

**Rheoli Contractau**

**12.1.** Ar ôl dyfarnu'r contract rhaid clustnodi Rheolwr Contract (os yw'n wahanol i'r Swyddog Arweiniol) a fydd yn rheoli'r agweddau ar y contract o ddydd i ddydd yn ystod cyfnod y contract. Rhaid cytuno ar gynllun rheoli contract priodol ar ôl y dyfarniad a chael cyngor gan yr Uned Caffael Corfforaethol. Mae dogfen Canllawiau Rheoli Contractau ar gael ar y fewnrwyd.

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

**12.2.** Yn achos contractau a gaiff eu dyfarnu yn unol â Deddf Caffael 2023, mae'n ofynnol i'r Contractau hynny gynnwys o leiaf 3 dangosydd perfformiad allweddol, oni ellir penderfynu'n rhesymol na ellid asesu perfformiad y cyflenwr o dan y contract yn briodol drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad allweddol.

**Estyniadau Contract**

**12.3. Estyniadau Contract**

**12.3.1.** Gellir caniatáu estyn cyfnod y contract cyn belled ag y cydymffurfir â’r amodau canlynol:

- os bydd y ddogfen dendro wreiddiol a'r contract dilynol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer estyn y contract ac;
- wedi nodi hyd neu hyd mwyaf yr estyniad posibl gellir estyn y contract ac;
- os yw'r Swyddog Arweiniol yn fodlon bod y darparwr presennol yn cynnig y gwerth gorau am arian a gwasanaeth/nwyddau/gwaith o ansawdd.

**12.3.2.** Rhaid i Bennaeth Gwasanaeth lofnodi ffurflen Estyn Contract cyn estyn unrhyw gontract. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael y templed.

**Contract yn dod i ben**

**12.4.** O dan Ddeddf Caffael 2023 pan fydd contract yn dod i ben yn naturiol neu drwy derfynu cynnar, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Hysbysiad Terfynu Contract cyn pen 30 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y caiff contract cyhoeddus ei derfynu.

## 13. Eithriadau a Hepgoriadau i Ofynion Cystadleuaeth

Mae RhGC 13 yn nodi'r amgylchiadau y gallwch ddyfarnu contract yn uniongyrchol i gontractwr heb gynnal cystadleuaeth, a elwir hefyd yn Ddyfarniad Uniongyrchol.

Gweler hefyd RhGC 14 sy'n nodi'r amgylchiadau y caniateir i chi addasu neu ymestyn tymor neu gwmpas contract presennol heb gynnal cystadleuaeth newydd.

Mae'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro wedi dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i ystyried, a chymeradwyo yn ôl y gofyn, eithriadau a hepgoriadau i gystadlu (cymal 13) ac addasu contractau (cymal 14) hyd at werth £100,000 (gan gynnwys TAW).

**13.1. Penderfyniad y Swyddog Arweiniol (Hyd at y Trothwy)**

**13.1.1.** Cyn belled â bod y contract arfaethedig yn cydymffurfio â'r holl Reolau perthnasol eraill o ran y Gweithdrefnau Contractau, Canllawiau Caffael neu Reolau Gweithdrefn Ariannol, ni fydd angen i'r gweithdrefnau tendro fod yn berthnasol i'r canlynol:-

**13.1.1.1.** Unrhyw gyngor, gwasanaeth neu gynrychiolaeth gyfreithiol a ddarperir gan gwnsler neu gyfreithiwr.

**13.1.1.2.** Gwaith neu wasanaethau i gyfarpar ymgymerwyr statudol y mae gwaith mawr yn effeithio arno lle bo deddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i'r ymgymerwr statudol gyflawni'r fath waith.

**13.1.1.3.** Pryniannau, gwaith a gwasanaethau sydd eu hangen ar y Swyddog Arweiniol at y dibenion canlynol:-

- i atal perygl neu anaf i staff yr Awdurdod neu aelodau o'r cyhoedd;
- i atal difrod neu ddirywiad difrifol i dir, adeiladau neu beiriannau;
- i gynnal gwasanaethau hanfodol;
- i osgoi camau gorfodi yn erbyn yr awdurdod am beidio â chydymffurfio â rhywfaint o ddarpariaeth statudol;
- i wneud tir neu eiddo yn ddiogel yn erbyn mynediad neu ddefnydd heb awdurdod;
- at unrhyw ddiben arall lle bydd yr Awdurdod neu'r cyhoedd dan anfantais ddifrifol os na fydd pryniant, gwaith neu wasanaeth o'r fath yn cael ei drefnu ar frys;
- ar yr amod bod y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau'n gwbl angenrheidiol am resymau hynod frys yn sgil digwyddiadau nad oedd modd eu rhagweld lle na ellir cydymffurfio â therfynau amser ymarfer caffael. Dylai ymarfer caffael yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn gael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

**Dewis Defnyddwyr (Contractau Gofal Cymdeithasol)**

13.1.2 Dyfarniad uniongyrchol sydd o dan y trothwy, yn seiliedig ar ddewis defnyddiwr, ar gyfer gwasanaethau dewis unigol, i sicrhau parhad neu addasrwydd gofal, sydd: (a) yn rhan o unrhyw gategori a ddynodir fel contract cyffyrddiad ysgafn; (b) yn cael ei gyflenwi er budd uniongyrchol unigolyn penodol; a (c) yn un y byddai'n ofynnol i'r awdurdod contractio, o dan ddeddfwriaeth neu ganllawiau statudol, ystyried y farn a fynegir gan yr unigolyn, neu ei ofalwr, wrth bennu'r darparwr.

**Ar gyfer Dyfynbrisiau a Thendrau hyd at £100,000**

**13.2. Penderfyniad y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (Hyd at £100,000)**

**13.2.1.** Dylai'r Swyddog Arweiniol geisio cymeradwyaeth gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer unrhyw eithriad a gynigir o dan RhGC 13.2 cyn cychwyn ar y weithdrefn amgen neu, os nad yw hyn yn bosibl, cyn gynted â phosibl wedi hynny:-

**13.2.1.1.** prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith masnachol neu wedi’u patentu, sydd ar gael oddi wrth un cwmni yn unig a lle nad oes dewis arall rhesymol boddhaol ar gael;

**13.2.1.2.** mae'n ofynnol bod nwyddau, gwasanaethau neu waith a enwyd yn cael eu prynu yn gydnaws â rhywbeth sydd wedi’i osod eisoes fel yr awdurdodwyd gan y Swyddog Arweiniol;

**13.2.1.3.** gwneud gwaith neu gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith o fath arbenigol sydd, ym marn y Swyddog Arweiniol, yn gorfod cael eu gwneud gan ddarparwr penodol, gan nad oes dewis arall rhesymol boddhaol ar gael;

**13.2.1.4.** prynu darn o gelfyddyd neu eitem ar gyfer amgueddfa fel yr awdurdodwyd gan y Swyddog Arweiniol;

**13.2.1.5.** Contractau a drefnwyd gan yr Awdurdod fel cynrychiolwyr Adran Wladol, Llywodraeth Cymru neu awdurdod lleol neu gyhoeddus arall ar yr amod bod yr Awdurdod yn dilyn gweithdrefnau’r cyfryw adran neu awdurdod;

**13.2.1.6.** bydd unrhyw eithriadau a hepgoriadau eraill i'r rheolau hyn ond yn cael eu caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol a chânt eu hawdurdodi gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn sgil cael cyfiawnhad ysgrifenedig gan y Swyddog Arweiniol perthnasol;

**13.2.1.7.** Ar gyfer eithriadau sy'n ofynnol o fewn maes gwasanaeth y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol, bydd angen cymeradwyaeth Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol yn lle hynny.

**Ar gyfer Dyfynbrisiau a Thendrau dros £100,000 a hyd at y Trothwy**

**13.3. Penderfyniad y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 (Dros £100,000 a hyd at y Trothwy)**

**13.3.1.** Dylai'r Swyddog Arweiniol geisio cymeradwyaeth gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 ar gyfer unrhyw eithriad a gynigir o dan RhGC 13.3 cyn cychwyn ar y weithdrefn amgen neu, os nad yw hyn yn bosibl, cyn gynted â phosibl wedi hynny: -

**13.3.2.** prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith masnachol neu wedi'u patentu, sydd ar gael oddi wrth un cwmni yn unig a lle nad oes dewis arall rhesymol boddhaol ar gael;

**13.3.3.** mae'n ofynnol bod nwyddau, gwasanaethau neu waith a enwyd yn cael eu prynu yn gydnaws â rhywbeth sydd wedi'i osod eisoes fel yr awdurdodwyd gan y Swyddog Arweiniol;

**13.3.4.** gwneud gwaith neu gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith o fath arbenigol sydd, ym marn y Swyddog Arweiniol, yn gorfod cael eu gwneud gan ddarparwr penodol, gan nad oes dewis arall rhesymol boddhaol ar gael;

**13.3.4.1.** prynu darn o gelfyddyd neu eitem ar gyfer amgueddfa fel yr awdurdodwyd gan y Swyddog Arweiniol;

**13.3.4.2.** Contractau a drefnwyd gan yr Awdurdod fel cynrychiolwyr Adran Wladol, Llywodraeth Cymru neu awdurdod lleol neu gyhoeddus arall ar yr amod bod yr Awdurdod yn dilyn gweithdrefnau'r cyfryw adran neu awdurdod;

**13.3.4.3.** bydd unrhyw eithriadau a hepgoriadau eraill i'r rheolau hyn ond yn cael eu caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol a chânt eu hawdurdodi gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yn sgil cael cyfiawnhad ysgrifenedig gan y Swyddog Arweiniol perthnasol.

Ar gyfer ymarferion dros y Trothwy

### 13.4. Penderfyniad y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 (dros y Trothwy)

Rhaid i eithriadau a hepgoriadau dros y trothwy gael eu cymeradwyo gan Dîm Rheoli Adrannol yr Adran cyn i'r cais gael ei gyflwyno drwy'r system ar-lein.

**13.4.1.** Pan fo cyfiawnhad dros ddyfarniad uniongyrchol yn unol â'r rhai a amlinellir yn Atodlen 5 o Ddeddf Caffael 2023, bydd yn ofynnol i'r Swyddog Arweiniol ofyn am gymeradwyaeth gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151.

**13.4.2.** Rhaid cyfeirio unrhyw eithriadau a hepgoriadau i'r rheolau hyn sydd dros y trothwy (y tu allan i 13.4.1) at y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 drwy'r System Adrodd am Eithriadau ar-lein ac wedyn cyfeirir y rhain at y Tîm Rheoli Corfforaethol.

### 13.5. Adrodd am Eithriadau

**13.5.1.** Rhaid rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am bob eithriad er mwyn ei ystyried cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan ddefnyddio'r System Adrodd am Eithriadau ar-lein a chaiff ei gofnodi ar y Gofrestr Gontractau. System Adrodd am Eithriadau

**13.5.2.** Pan fo'n berthnasol, bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn trefnu cyhoeddi Hysbysiad Tryloywder mewn perthynas ag eithriad a gymeradwywyd (dros £30,000). Mae'n ofynnol gwneud hyn 8 diwrnod gwaith cyn ymrwymo i gontract gyda'r cyflenwr.

## 14. Addasu neu Ymestyn Contractau Presennol

Addasu neu ymestyn contract presennol

**14.1.** Ar gyfer contractau sydd o dan Drothwy Caffael perthnasol y DU, caniateir addasiad heb fod angen proses gaffael newydd pan nad yw gwerth yr addasiad yn fwy na 10% o werth gwreiddiol y contract (neu 15% ar gyfer contractau gwaith), ar yr amod nad yw'r cynnydd yn achosi i gyfanswm gwerth y contract fod dros Drothwy cymwys y DU ac nad yw'n newid natur gyffredinol y contract.

**14.2.** Cyn addasu unrhyw Gontract (ac eithrio yn achos 14.1), boed hynny o ran gwerth, hyd, cwmpas neu fel arall, rhaid gofyn am gyngor gan yr Uned Caffael Corfforaethol yn gyntaf.

**14.3.** Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y gellir addasu, newid neu ddiwygio contractau a dylai unrhyw addasiad o'r fath gydymffurfio â'r canlynol:

**14.3.1.** Adran 74 ac Atodlen 8 o Ddeddf Caffael 2023, ar ôl 24 Chwefror 2025, mewn perthynas â chontractau y mae Deddf Caffael 2023 yn berthnasol iddynt;

**14.3.2.** Rheoliadau 13 a 14 o'r Rheoliadau ynghylch y Gyfundrefn Dethol Darparwyr mewn perthynas â chontractau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd.

**14.4.** Mae'r cymeradwyaethau sydd eu hangen er mwyn gwneud newidiadau yn unol â naill ai RhGC 14.1 neu RhGC 14.2 fel a ganlyn:

**14.4.1.** Os mai gwerth gwreiddiol y contract oedd £10,000 neu lai, ar yr amod bod y Swyddog Arweiniol yn fodlon bod yr addasiad yn sicrhau gwerth am arian nid oes rheidrwydd i gael cymeradwyaeth ar gyfer addasiadau gwerth hyd at £10,000.

**14.4.2.** Os oedd gwerth gwreiddiol y contract dros £10,000 a dyfarnwyd y contract gan ddefnyddio gweithdrefn gystadleuol a oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn, rhaid i'r Swyddog Arweiniol gael cymeradwyaeth gan:

(a) y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol os na fydd gwerth yr addasiad yn fwy na £100,000; a

(b) y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 os bydd gwerth yr addasiad yn fwy na £100,000;

Os gwneir cyfres o addasiadau i gontract, at ddibenion pennu pa gymeradwyaeth sy'n ofynnol o dan RhGC 14.3.2, rhaid ychwanegu gwerth unrhyw addasiadau blaenorol at werth gwreiddiol y contract.

**14.4.3.** Os oedd gwerth gwreiddiol y contract dros £10,000 a heb ei ddyfarnu gan ddefnyddio gweithdrefn gystadleuol a oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn, rhaid i'r Swyddog Arweiniol gydymffurfio â Chymal 13 – Eithriadau a Hepgoriadau i Ofynion Cystadleuaeth.

**14.5. Adrodd am Addasiadau - Contractau Trosadwy**

**14.5.1.** Rhaid rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am bob addasiad er mwyn ei ystyried cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo drwy e-bost at y cymeradwywyr priodol a nodir uchod.

Pan fydd addasu contract a ddyfarnwyd ar ôl 24 Chwefror 2025 yn golygu bod y contract hwnnw yn fwy na Throthwy Caffael y DU ("contract trosiadwy"), rhaid ystyried Adran 74 ac Atodlen 8 o Ddeddf Caffael 2023.

Adolygu

## 15. Adolygu

**15.1.** Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn adolygu'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn yn barhaus a bydd yn cynnal adolygiad ffurfiol bob tair blynedd. Bydd unrhyw addasiadau'n amodol ar gymeradwyaeth Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Awdurdod.

## 16. Trefniadau Trosiannol

**16.1.** Mae cyfres o drefniadau trosiannol ac arbed sy'n pennu pa ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i weithgareddau caffael.

**16.2.** At ddibenion y Rheolau Caffael hyn, bydd y Ddeddfwriaeth Gaffael ganlynol yn berthnasol:

**16.2.1.** Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025

- Caffael Gwasanaethau Gofal Iechyd
- Addasu contractau sy'n ymwneud â Gwasanaethau Gofal Iechyd

16.2.2 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

- Yn achos contractau a ddyfarnwyd, cytundebau fframwaith a ddaeth i ben, neu systemau prynu dynamig a sefydlwyd cyn 24 Chwefror 2025.
- Addasu contractau a ddyfarnwyd, cytundebau fframwaith a ddaeth i ben, neu systemau prynu dynamig a sefydlwyd cyn 24 Chwefror 2025.
- Contractau yn ôl y gofyn o dan gytundebau fframwaith a ddaeth i ben, neu systemau prynu dynamig a sefydlwyd cyn 24 Chwefror 2025. (Nodwch, ac eithrio systemau prynu dynamig a gaffaelwyd ar gyfer Gwasanaethau o dan y gyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn, bydd unrhyw gontractau a osodir o dan system brynu ddynamig yn dod i ben yn awtomatig ar 23 Chwefror 2029).
- Pan fo hysbysiad contract sy'n ofynnol gan Reoliad 26(8) neu 75(1)(a) (cyhoeddi hysbysiadau: contractau cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau penodol eraill), wedi'i gyflwyno i'w gyhoeddi yn unol â Rheoliad 51 cyn 24 Chwefror 2025.
- Addasu contract lle mae hysbysiad contract sy'n ofynnol gan Reoliad 26(8) neu 75(1)(a) (cyhoeddi hysbysiadau: contractau cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau penodol eraill), mewn perthynas â'r contract hwnnw wedi'i gyflwyno i'w gyhoeddi yn unol â Rheoliad 51 cyn 24 Chwefror 2025.

- O ran contract sydd o dan y trothwy, cyhoeddi cyfle contract ar GwerthwchiGymru yn unol â Rheoliad 110 cyn 24 Chwefror 2025.
- Addasu contract sydd o dan y trothwy, lle cyhoeddwyd y cyfle contract ar GwerthwchiGymru yn unol â Rheoliad 110 cyn 24 Chwefror 2025.

**16.2.2.** Deddf Caffael 2023 (fel y'i diwygiwyd a/neu unrhyw ddeddfwriaeth olynol) a Rheoliadau Caffael 2024 (fel y'u diwygiwyd a/neu unrhyw ddeddfwriaeth olynol)

- Yn achos contractau a ddyfarnwyd, cytundebau fframwaith a ddaeth i ben, neu farchnadoedd dynamig a sefydlwyd ar ôl 24 Chwefror 2025.
- Addasu contractau a ddyfarnwyd, cytundebau fframwaith a ddaeth i ben, neu farchnadoedd dynamig a sefydlwyd ar ôl 24 Chwefror 2025.
- Contractau yn ôl y gofyn o dan gytundebau fframwaith a ddaeth i ben, neu farchnadoedd dynamig a sefydlwyd ar ôl 24 Chwefror 2025.

| | 17. ATODIAD 1 - Diffiniadau a Dehongliadau |
|---|---|
| **Tendr afresymol o isel** | At ddibenion y rheolau hyn, ystyr afresymol o isel fydd Tendr yr ystyrir bod ei bris yn sylweddol is na'r rhan fwyaf o'r tendrau, neu gyfartaledd y tendrau, yn yr un ymarfer Tendro. |
| **Dros y Trothwy** | Contract sydd â chyfanswm gwerth contract amcangyfrifedig nad yw'n llai na'r trothwy ar gyfer y math o gontract ac sy'n ddarostyngedig i'r prif reolau yn Neddf Caffael 2023. |
| **Cyfuno** | Cyfuno gwerth y contractau ar wahân ar gyfer yr un cyflenwad, gwasanaeth a gwaith. |
| **Rhestr Gymeradwy** | Mae rhestr gymeradwy/ddethol yn peri risg sylweddol i'r Awdurdod ac nid argymhellir hynny'n arfer caffael derbyniol. Rhaid cael caniatâd ymlaen llaw gan Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 cyn llunio neu fabwysiadu rhestr dendro gymeradwy/ddethol. |
| **Crynodeb Asesu** | Yn darparu crynodeb i gyflenwyr ynghylch sut y cafodd eu tendr ei asesu yn erbyn y meini prawf dyfarnu. |
| **Awdurdod** | Bydd pob cyfeiriad at yr Awdurdod yn y Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn yn cynnwys Corff Llywodraethu pob ysgol sy'n dod o dan awdurdodaeth yr Awdurdod fel yr Awdurdod Addysg Lleol os ydynt yn berthnasol. |
| **Bond** | Bwriedir i fond ddiogelu'r cyngor rhag lefel o gost sy'n deillio o fethiant contractwr. |
| **Contract yn ôl y Gofyn / Proses Ddethol Gystadleuol** | Ystyr contract yn ôl y gofyn yw 'Proses Ddethol Gystadleuol' yn Neddf Caffael 2023. Proses ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus yn unol â fframwaith. Gweler adran 46 o Ddeddf Caffael 2023. |
| **Awdurdod Caffael Canoledig** | Awdurdod contractio neu gorff sy'n ymgymryd â gweithgareddau caffael ar ran awdurdodau eraill, yn unol â Deddf Caffael 2023. |

| | |
|---|---|
| **Trefniant Cydweithredol** | Unrhyw drefniant, fframwaith neu gaffaeliad rhanbarthol, ar y cyd neu'n seiliedig ar gonsortiwm a sefydlir neu a ddefnyddir gyda chyrff cyhoeddus eraill. |
| **Budd i'r Gymuned** | Drwy'r ymarfer tendro, ceisio hybu cyfleoedd ychwanegol a fydd o fudd i'r gymuned ehangach. Gallai hynny gynnwys cyfleoedd o ran hyfforddiant a gwaith, gwella'r cyfleoedd o ran y gadwyn gyflenwi, rhagor o gyfraniadau addysgol a/neu fentrau cymunedol. |
| **Amodau Cymryd Rhan** | Gofynion a osodir ar gyflenwyr mewn caffaeliad cystadleuol sy'n ymwneud â statws cyfreithiol, gallu ariannol neu allu technegol, fel y caniateir gan Ddeddf Caffael 2023. |
| **Contract** | Unrhyw gytundeb (p'un a yw'n ysgrifenedig ai peidio) rhwng yr Awdurdod ac un neu fwy o bartïon eraill ar gyfer:-<br>• gwerthu nwyddau neu ddeunyddiau;<br>• cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau;<br>• cyflawni gwaith<br><br>darparu gwasanaethau (gan gynnwys adeiladau a chyfleusterau). |
| **Hysbysiad Dyfarnu Contract** | Yn cadarnhau bwriad yr Awdurdod i ddyfarnu contract cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn gystadleuol. |
| **Hysbysiad Newid Contract** | Hysbysiad a gyhoeddir pan fydd contract yn cael ei addasu mewn amgylchiadau sy'n mynnu tryloywder o dan Ddeddf Caffael 2023. |
| **Hysbysiad Manylion Contract** | Hysbysiad a gyhoeddir ar ôl ymrwymo i gontract i ddatgelu manylion rhagnodedig y contract a ddyfernir. |
| **Rheoli Contractau** | Sicrhau bod y cytundeb contractiol iawn ar gyfer y sefydliad yn cael ei sefydlu a'i reoli yn y modd mwyaf effeithiol, gan alluogi'r ddwy ochr i gyflawni eu hymrwymiadau'n llawn a darparu gwasanaeth/cynnyrch o'r ansawdd iawn, ar amser, yn unol â'r gyllideb gan gydymffurfio â gofynion y fanyleb. |
| **Addasu Contractau** | Mae Deddf Caffael 2023 yn egluro i ba raddau y gellir diwygio contract ar ôl ei ddyfarnu heb fod angen ei ailhysbysebu ar GwerthwchiGymru. Gweler Rheoliad 74 o Ddeddf Caffael 2023, sy'n amlinellu'r manylion, a gweler RhGC 14. |
| **Cofrestr Gontractau** | Cofrestr o gontractau a fframweithiau a ddyfernir yn yr Awdurdod, a gedwir gan yr Uned Caffael Corfforaethol. |
| **Hysbysiad Terfynu Contract** | Hysbysiad a gyhoeddir ar ôl i gontract cyhoeddus ddod i ben neu gael ei derfynu'n gynnar, yn unol â Deddf Caffael 2023. |
| **Contractwr** | Gweler Cyflenwr |
| **Contract Trosadwy** | Contract sydd, ar ôl ei addasu, dros drothwy caffael perthnasol y DU ac sydd bellach yn ddarostyngedig i Ddeddf Caffael 2023. |
| **Contract Corfforaethol** | Contractau ar gyfer Nwyddau/Gwaith neu Wasanaethau sydd ar waith i'w defnyddio gan bob adran yn y Cyngor.  Mae'r contractau hyn yn galluogi Swyddogion i gaffael cynhyrchion/gwasanaethau yn effeithlon ac yn effeithiol. |

| | |
|---|---|
| **Yr Uned Caffael Corfforaethol** | Mae Uned Caffael Corfforaethol yr Awdurdod yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad ynghylch Caffael. |
| **Caffaeliad a gwmpesir** | Dyfarnu ac ymrwymo i gontract cyhoeddus a'i reoli fel y'i diffinnir yn Neddf Caffael 2023. |
| **Marchnad Ddynamig** | Rhestr o gyflenwyr sydd wedi bodloni amodau aelodaeth y Cyngor ac y gellir dyfarnu contract sydd dros Drothwy Caffael y DU iddynt drwy'r weithdrefn hyblyg gystadleuol.  Gall cyflenwyr newydd ymuno â'r Farchnad Ddynamig ar unrhyw adeg yn ystod ei gweithrediad. Dim ond ar ôl 24 Chwefror 2025 y ceir sefydlu Marchnad Ddynamig. |
| **Eithriad / Hepgoriad** | Gwyriad cymeradwy oddi wrth ofynion cystadleuol y Rheolau Gweithdrefnau Contract, gan gynnwys dyfarniadau uniongyrchol ac addasiadau a ganiateir, a awdurdodir yn unol â RhGC 13 neu RhGC 14. |
| **Cytundeb Fframwaith** | Cytundeb rhwng un neu ragor o awdurdodau / cyrff cyhoeddus ac un neu ragor o weithredwyr economaidd, er mwyn sefydlu'r telerau sy'n rheoli contractau sydd i'w rhoi yn ystod cyfnod penodol (trefniadau yn ôl y gofyn). |
| **Caffael ar y Cyd** | Caffaeliad a gynhelir ar y cyd gan yr Awdurdod ac un neu fwy o awdurdodau contractio eraill, naill ai fel awdurdod arweiniol neu gyfranogwr. |
| **Dangosydd Perfformiad Allweddol** | Safon perfformiad fesuradwy sydd wedi'i chynnwys mewn contract i fonitro cyflawniad a pherfformiad. |
| **Swyddog Arweiniol** | Bydd y Swyddog Arweiniol yn gyfrifol am y broses gaffael ac ar ôl dyfarnu'r contract y swyddog hwnnw fydd y prif gyswllt rhwng yr Awdurdod a'r cyflenwr perthnasol. Bydd y Swyddog Arweiniol yn gyfrifol am reoli'r trefniant contractiol hwnnw a sicrhau bod y pris/prisiau a delir yn unol â thelerau'r contract. |
| **Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn** | Mae'r drefn cyffyrddiad ysgafn newydd yn gyfres benodol o reolau ar gyfer rhai contractau gwasanaeth sy'n tueddu i fod â llai o ddiddordeb i gystadleuaeth drawsffiniol. Mae'r contractau gwasanaeth hynny yn cynnwys rhai gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg fel y diffinnir gan godau Geirfa Caffael Gyffredin sydd wedi'u hamlinellu yn Atodlen 1 o Reoliadau Caffael 2024. |
| **Swyddog Monitro** | Y Swyddog Monitro yw'r swyddog a ddynodwyd gan yr Awdurdod yn unol â darpariaethau Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith sy'n ymgymryd â'r rôl hon ar hyn o bryd. |
| **Y Tendr Mwyaf Manteisiol** | Y tendr a fydd yn dod â'r budd mwyaf i'r Awdurdod yn sgil ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys ansawdd a phris. |
| **Contract Hysbysadwy sydd o dan y Trothwy.** | Contract rheoleiddiedig sydd o dan y trothwy â gwerth amcangyfrifedig o fwy na £30,000. |
| **Fframweithiau Agored** | Cynllun o fframweithiau sy'n darparu ar gyfer dyfarnu fframweithiau olynol ar yr un telerau i raddau helaeth. |
| **Hysbysiad Cydymffurfedd Taliadau** | Hysbysiad a gyhoeddir bob chwe mis o dan adran 69 o Ddeddf Caffael 2023 sy'n adrodd ar gydymffurfedd â'r gofynion o ran talu o fewn 30 diwrnod. |

| | |
|---|---|
| **Hysbysiad Piblinell** | Yn nodi contractau cyhoeddus arfaethedig sydd â gwerth amcangyfrifedig dros £2 filiwn y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu hysbysebu yn ystod y cyfnod adrodd. |
| **Hysbysiad Caffael Arfaethedig** | Hysbysiad dewisol sy'n rhoi gwybodaeth ymlaen llaw am gaffaeliad cystadleuol sydd ar ddod ac sy'n galluogi amserlenni tendro llai, pan ganiateir hynny. |
| **Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad** | Ymgysylltu â chyflenwyr cyn dechrau proses gaffael i lywio'r gwaith o baratoi a dylunio'r caffaeliad. |
| **Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad** | Hysbysiad a gyhoeddir pan fydd gwaith ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad wedi'i gynllunio neu wedi digwydd cyn cyhoeddi tendr. |
| **Hysbysiad Terfynu Contract** | Hysbysiad a gyhoeddir pan fydd yr Awdurdod yn penderfynu peidio â dyfarnu contract ar ôl cyhoeddi Tendr neu Hysbysiad Tryloywder yn flaenorol. |
| **Dyfynbris** | Dyfynbris sy'n seiliedig ar bris ac unrhyw fater perthnasol arall, heb gyhoeddi tendr ffurfiol. |
| **Contract Rheoleiddiedig sydd o dan y Trothwy** | Contract sydd o dan y trothwy nad yw'n:<br>• contract eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 2 o Ddeddf Caffael 2023;<br>• contract consesiwn; neu<br>contract cyfleustodau. |
| **Contract Perthnasol** | Contract y mae'n rhaid ei gynnwys at ddibenion cyfrifo trothwy, cyfuno, tryloywder neu ddyletswyddau adrodd o dan Ddeddf Caffael 2023. |
| **Cyfnod Adrodd** | Y cyfnod a bennir yn Neddf Caffael 2023 neu reoliadau ar gyfer cyhoeddi piblinell, adrodd am daliadau neu hysbysiadau statudol eraill. |
| **Trefniant Caffael a Gedwir yn ôl** | Caffaeliad o dan drefniant llywodraeth ganolog y DU, er enghraifft Gwasanaeth Masnachol y Goron. |
| **Trefniant Caffael a Gedwir yn ôl** | Trefniant caffael a sefydlir gan un o gyrff llywodraeth ganolog y DU y gall awdurdodau Cymru gael mynediad iddo. |
| **Swyddog Adran 151** | Y swyddog a ddynodir gan yr Awdurdod o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n ymgymryd â'r rôl hon ar hyn o bryd. |
| **Hysbysiad Taliadau Sylweddol** | Hysbysiad chwarterol a gyhoeddir o dan adran 70 o Ddeddf Caffael 2023 sy'n nodi taliadau unigol sydd dros y gwerth rhagnodedig. |
| **Dyfarniad Uniongyrchol** | Dim ond mewn amgylchiadau prin ac eithriadol y dylid defnyddio Dyfarniad Uniongyrchol. Diffiniad bras o hyn yw caffael heb geisio cystadleuaeth neu os nad oes cystadleuaeth ar gael yn y farchnad. Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i bob Dyfarniad Uniongyrchol sydd dros y Trothwy ar gyfer tendrau. |

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Segur** | Y cyfnod lleiaf gofynnol rhwng hysbysu ynghylch penderfyniad i ddyfarnu contract a dyfarnu'r contract hwnnw. Yn y Deyrnas Unedig y cyfnod segur yw 8 diwrnod gwaith. |
| **Cyflenwr** | Cyflenwr gwaith, nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor. |
| **Tendr** | Cynnig gweithredwr economaidd a gyflwynir mewn ymateb i wahoddiad i dendro. |
| **Paneli Gwerthuso Tendrau** | Grŵp o swyddogion a benodir gan y Swyddog Arweiniol i ymgymryd ag ymarfer gwerthuso tendrau ar gyfer contract neu Fframwaith. Bydd y grŵp o swyddogion dan sylw fel arfer yn parhau yn ddigyfnewid gydol y broses, a bydd ganddynt y cymwysterau a/neu’r arbenigedd angenrheidiol i gynghori’r Swyddog Arweiniol ar faterion technegol, caffael, cyfreithiol, ariannol, polisi a staffio. |
| **Adroddiad Gwerthuso Tendrau** | Cofnod ysgrifenedig o'r broses werthuso a rhesymeg dyfarnu ar gyfer ymarfer caffael. |
| **Hysbysiad Tendro** | Yn gwahodd cyflenwyr i gymryd rhan mewn gweithdrefn gaffael gystadleuol. |
| **Gweithdrefnau Tendro** | **Gweithdrefn Agored -** gweithdrefn dendro un cam heb gyfyngiad ar bwy sy'n gallu cyflwyno tendrau.<br>**Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol -** gweithdrefn dendro gystadleuol arall y mae'r awdurdod contractio yn ei hystyried yn briodol at ddiben dyfarnu'r contract cyhoeddus.<br>**Mae rhagor o fanylion am yr holl Weithdrefnau uchod ar gael yn y Canllawiau Caffael (sydd ar gael ar y fewnrwyd) neu drwy gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol.** |
| **Trothwyon** | Gwerth y contract ar gyfer y math o gontract dan sylw y mae Deddf Caffael 2023 yn berthnasol iddo. Mae'r trothwyon hyn yn cael eu diweddaru bob dwy flynedd. |
| **Hysbysiad Tryloywder** | Hysbysiad a gyhoeddir pan fo'r Awdurdod yn bwriadu gwneud dyfarniad uniongyrchol neu pan fo angen tryloywder ymlaen llaw o dan Ddeddf Caffael 2023. |
| **Dewis Defnyddwyr** | Math o ddyfarniad uniongyrchol sydd o dan y trothwy o dan y gyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn ar gyfer gwasanaethau gofal neu gymorth unigol sy'n adlewyrchu dewis unigol. |